# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 7

CYFFREDINOL

### 74 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon etc

(1) Caiff rheoliadau wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol, neu

(b) unrhyw ddarpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed,

y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) addasu'r Ddeddf hon neu unrhyw ddeddfiad arall (pryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 74 mewn grym ar 30.4.2021, gweler **a. 84(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 74.